ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg mewn ysgolion







**Mawrth 2026**

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53903, ISBN digidol 978-1-83745-149-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg mewn ysgolion**

**Cynulleidfa**

Athrawon, arweinwyr a staff cymorth mewn ysgolion a lleoliadau, yn ogystal â'r gweithlu addysg arbenigol a'r rhai sy'n gweithio mewn rolau bugeiliol nad ydynt yn addysgu a gyflogir gan awdurdodau lleol. Mae'r partneriaid allweddol yn cynnwys: awdurdodau lleol, Estyn, Dysgu, undebau'r gweithlu addysg, prifysgolion a phartneriaethau addysg gychwynnol athrawon, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CYDAG, sefydliadau'r trydydd sector, Cyngor y Gweithlu Addysg, Adnodd, Medr, Cymwysterau Cymru, Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru a llywodraethwyr ysgolion.

**Trosolwg**

Mae'r cynllun strategol hwn ar gyfer y gweithlu addysg mewn ysgolion yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd i gyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd mewn pum thema flaenoriaeth. Bydd y cynllun yn helpu i gynorthwyo ymarferwyr yn eu rolau addysgu, cynorthwyo addysgu, arwain yn ogystal â rolau proffesiynol arbenigol. Mae'r camau gweithredu wedi'u nodi yn y tymor byr, canolig a hirdymor a'u nod yw mynd i'r afael â heriau a phwysau parhaus yn y system addysg. Mae'r camau gweithredu yn ymateb i'r angen am weithlu o ansawdd uchel sy'n cael ei werthfawrogi a'i gefnogi'n dda yng Nghymru ac sydd â'r cyfarpar i alluogi pob dysgwr i gyflawni eu potensial.

**Camau i'w cymryd**

Mae rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â rhoi'r cynllun ar waith wedi'u cynnwys.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i:

Yr Is-adran Ymarferwyr Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
**e-bost:** isadranymarferwyrysgolion@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
www.llyw.cymru/cynllunio-a-strategaeth-addysg-a-sgiliau

# Cynnwys


Rhagair y Gweinidog .... 2

Cyflwyniad .... 4

Cyd-destun .... 5

Egwyddorion arweiniol .... 8

Rolau a chyfrifoldebau .... 9

Ein hymrwymiadau .... 10

1. Sicrhau ansawdd addysgu a dysgu .... 11
2. Mynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith .... 15
3. Ymateb i heriau newydd i weithlu ysgolion a sicrhau bod modd cael gafael ar gymorth drwy weithlu arbenigol a bugeiliol .... 18
4. Sicrhau bod addysgu, cefnogi addysgu ac arweinyddiaeth addysg yn llwybrau gyrfa deniadol .... 21
5. Sicrhau defnydd effeithiol ac amserol o ddata a thystiolaeth i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu .... 25

# Rhagair y Gweinidog

Rwy'n falch o allu cyhoeddi'r cynllun strategol hwn ar gyfer y gweithlu addysg mewn ysgolion sy'n amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd gyda'n partneriaid i gefnogi ein gweithlu. Mae gweithlu cryf, hyderus sydd wedi'i gefnogi'n dda yn hanfodol i'r gwaith o godi safonau ar draws ein hysgolion a galluogi pob dysgwr yng Nghymru i ffynnu a chyrraedd ei lawn botensial. Mae ein hymarferwyr – athrawon, arweinwyr, cynorthwywyr addysgu, staff cymorth a'r gweithwyr proffesiynol arbenigol sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw – yn llunio cyfleoedd bywyd ein plant a'n pobl ifanc bob dydd. Mae eu hymrwymiad, eu proffesiynoldeb a'u caredigrwydd yn ganolog i'n system addysg.

Rydym yn ffodus i gael gweithlu eithriadol yn ein hysgolion a'n lleoliadau. Rydym yn gwerthfawrogi'r ystod eang o rolau y maen nhw'n eu cyflawni ac yn deall eu bod yn dod â'u dyheadau, eu diddordebau a'u hamgylchiadau unigol eu hunain i'w gwaith. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni roi sylw i'r heriau parhaus y maen nhw'n eu hwynebu.

Mae wedi dod yn fwy heriol i recriwtio athrawon dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn meysydd pwnc allweddol ac mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, ac mae gormod o athrawon ac arweinwyr yn gadael y proffesiwn cyn pryd. Mae angen i staff cymorth – sy'n chwarae rhan hanfodol mewn hwyluso ffyrdd cynhwysol a theg o ddysgu – gael llwybrau cliriach, cydnabyddiaeth, telerau ac amodau gwell. Ar yr un pryd, mae newidiadau demograffig, anghenion cynyddol gymhleth y dysgwyr, disgwyliadau cynyddol cymunedau o ysgolion, ac effaith barhaus y diwygiadau pwysig yr ydym wedi'u gwneud, yn gofyn i'n gweithlu fod yn ystwyth, yn hyderus ac wedi'i gefnogi'n dda.

Mae'r cynllun hwn yn nodi gweledigaeth glir a chyfunol ar gyfer sut y byddwn yn cefnogi, yn datblygu ac yn cryfhau'r gweithlu yn ein hysgolion a'n lleoliadau yn ystod y blynyddoedd i ddod. Mae'n ymateb yn uniongyrchol i'r hyn y mae ymarferwyr, undebau'r gweithlu addysg, awdurdodau lleol, a phartneriaid wedi'i ddweud wrthym, sef er bod ein gweithlu yn ymroddedig ac yn wydn, mae'r pwysau y maen nhw'n eu hwynebu yn tyfu ac yn gynyddol gymhleth. Mae mynd i'r afael â'r llwyth gwaith, diwallu holl anghenion y dysgwyr, cryfhau mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, darparu llwybrau gyrfa clir a gwerth chweil, a'r angen i adeiladu proffesiwn amrywiol, dwyieithog sy'n barod ar gyfer y dyfodol i gyd yn hanfodol i adeiladu proffesiwn ffyniannus a chynaliadwy. Yn anad dim, mae lles ein gweithlu yn hollbwysig ac yn sylfaenol i'r cynllun hwn.

Er bod y cynllun hwn yn canolbwyntio ar ysgolion a lleoliadau, i raddau helaeth gellir cymhwyso ei egwyddorion arweiniol a'i ymrwymiadau ar draws y sector addysg ehangach. Mae gwaith pellach hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i gefnogi ymarferwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn gofyn am gydweithredu parhaus ar draws y system gyfan. Rwy'n ddiolchgar i'n partneriaid – awdurdodau lleol, undebau'r gweithlu addysg, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, Dysgu, prifysgolion a sefydliadau'r trydydd sector – y mae eu gwybodaeth a'u harweinyddiaeth wedi llunio'r cynllun hwn, a bydd y rhain yn hanfodol o ran ei weithredu. Ond yn anad dim, caiff llwyddiant

y cynllun hwn ei fesur yn y ffordd y mae'n galluogi ymarferwyr i gefnogi dysgwyr yn ein hysgolion a'n lleoliadau. Mae eich llais, eich proffesiynoldeb a'ch ymrwymiad i blant a phobl ifanc yn parhau i fod wrth galon popeth a wnawn.

Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn adeiladu gweithlu sy'n hyderus, sy'n cael ei werthfawrogi ac sy'n barod ar gyfer y dyfodol; gweithlu sydd wedi'i arfogi i gefnogi pob dysgwr i gyrraedd ei botensial; a phroffesiwn sydd gyda'r rhai mwyaf bywiog ac uchel eu parch yng Nghymru.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

# Cyflwyniad

Mae'r cynllun strategol hwn ar gyfer y gweithlu addysg mewn ysgolion yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd gyda'n partneriaid i gefnogi datblygiad parhaus athrawon, arweinwyr a staff cymorth ein hysgolion a'n lleoliadau ochr yn ochr â staff addysg arbenigol a staff bugeiliol nad ydynt yn addysgu a gyflogir gan awdurdodau lleol i gefnogi ein dysgwyr (cyfeirir atynt fel ymarferwyr yn y cynllun). Rydym hefyd wedi cynnwys camau gweithredu i wella ein dealltwriaeth o'r gweithlu sy'n helpu i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol.

At ddibenion y ddogfen hon, mae staff cymorth yn cynnwys: cynorthwywyr addysgu; cynorthwywyr addysgu lefel uwch; staff sy'n cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol; staff cymorth bugeiliol nad ydynt yn addysgu; ac arweinwyr busnes. Mae staff addysg arbenigol a staff bugeiliol yr awdurdodau lleol nad ydynt yn addysgu yn cynnwys: seicolegwyr addysg; athrawon arbenigol iaith a lleferydd; athrawon dysgwyr byddar a dysgwyr â nam ar eu golwg; athrawon arbenigol i gefnogi llythrennedd a rhifedd, anhwylder sbectrwm awtistiaeth, nam amlsynhwyraidd, anghenion meddygol corfforol neu iechyd a lles emosiynol; arbenigwyr symudedd; a swyddogion cynhwysiant neu gyswllt teuluol.

# Cyd-destun

Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu yng nghyd-destun ein Fframwaith Gwella Cenedlaethol a'n gweledigaeth ar gyfer system addysg gynhwysol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr gan roi pwyslais ar gydweithredu a hunanwerthuso wrth wella systemau. I ategu'r trefniadau newydd hyn mae angen i ddysgu proffesiynol, datblygu arweinyddiaeth a chynllunio gweithlu strategol fod yn effeithiol. Bydd hyn yn ein helpu i adeiladu gweithlu addysg gwydn, amrywiol a pharod ar gyfer y dyfodol, sy'n barod i addysgu a dysgu mewn modd sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.

Mae'r cynllun wedi'i lywio gan sylfaen dystiolaeth eang, gan gynnwys Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion, adroddiadau Estyn, gwerthusiadau annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, adroddiadau'r OECD a chanfyddiadau adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar recriwtio a chadw athrawon.

Ochr yn ochr â'r sylfaen dystiolaeth hon, mae ymgysylltiad rhanddeiliaid ag ymarferwyr, undebau'r gweithlu addysg, awdurdodau lleol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg a phartneriaid allweddol eraill wedi nodi blaenoriaethau cyson ar gyfer y gweithlu ysgolion. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys: gwella amodau gwaith; mynd i'r afael â llwyth gwaith a lles; cryfhau llwybrau gyrfa; a gwella cefnogaeth i gynorthwywyr addysgu ac arweinwyr ysgolion.

Rydym yn cydnabod effaith barhaus ein diwygiadau addysg ar y gweithlu, yr angen i gynllunio'n well ar gyfer olyniaeth y gweithlu a phwysigrwydd cynyddu nifer yr athrawon sy'n siarad Cymraeg. Roedd gweithio hyblyg, gwella amodau i'n cynorthwywyr addysgu, trefniadau mwy cynaliadwy ar gyfer cyflenwi yn absenoldeb athrawon a rolau a chyfrifoldebau cliriach ar draws y gweithlu, hefyd yn themâu rheolaidd.

Mae data a gasglwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2024 i 2025 o Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion a ffynonellau eraill yn rhoi'r dystiolaeth ganlynol.

- Roedd 25,225 o athrawon a phenaethiaid yn gweithio yn ein hysgolion ochr yn ochr â 26,765 o staff cymorth arall. Mae'r staff cymorth hyn yn ymgymryd ag ystod o rolau gan gynnwys cynorthwywyr addysgu a staff bugeiliol (ond nid ydynt yn cynnwys goruchwylwyr arholiadau a goruchwylwyr canol dydd).
- Mae nifer yr athrawon wedi gostwng 2.4% ers mis Tachwedd 2023. Ers blwyddyn academaidd 2020 i 2021, mae nifer yr athrawon cynradd wedi gostwng 7.4%, ac mae nifer yr athrawon uwchradd wedi gostwng 5.3%. Mewn cyferbyniad, mae ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion wedi gweld cynnydd o 16.8% a 19.6% yn y drefn honno. Mae hyn yn cyd-fynd â'r patrymau a welir yn y gostyngiad yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a'r cynnydd yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion arbennig ac mewn lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol.
- Staff hŷn sydd mewn rolau arwain yn bennaf gan gynyddu pryderon ynghylch olyniaeth.
- Mae nifer y staff cymorth wedi gostwng hefyd mewn rhai rolau fel llyfrgellwyr (gostyngiad o 27.3%) a staff TGCh (gostyngiad o 16.7%).

- Mae amrywiaeth yn gyfyngedig o hyd, gan mai dim ond 1.3% o athrawon a 3.6% o staff cymorth sydd o gefndiroedd Du, Asiaidd, Cymysg neu gefndiroedd ethnig eraill, o'i gymharu â 15% o ddysgwyr.
- Mae capasiti o ran y Gymraeg yn peri pryder: dim ond 39.0% o athrawon sy'n nodi sgiliau Cymraeg canolradd neu uwch, a dim ond 24.7% sy'n addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.
- Mae heriau recriwtio a chadw yn parhau, yn enwedig mewn pynciau cyfrwng Cymraeg a gwyddoniaeth ac ymhlith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Er bod rhai pynciau uwchradd yn cyrraedd targedau derbyn, mae eraill (fel cemeg, ffiseg, Cymraeg ac ieithoedd modern) yn sylweddol is na'r targedau hyn.
- Ar gyfartaledd, derbyniwyd 10.0 o geisiadau fesul swydd a hysbysebwyd ym mlwyddyn academaidd 2023 i 2024. Mae hyn yn gynnydd o 7.8 o'i gymharu â blwyddyn academaidd 2022 i 2023 a'r uchaf ers blwyddyn academaidd 2020 i 2021. Roedd y cyfartaledd yn is ar gyfer swyddi cyfrwng Cymraeg (5.1) o'i gymharu â swyddi cyfrwng Saesneg (11.5). Roedd y cyfartaledd yn is ar gyfer swyddi ysgolion uwchradd (5.2) hefyd o'i gymharu â swyddi ysgolion cynradd (15.2).
- Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2023 i 2024, llenwyd 1,926 o'r 2,172 o swyddi a hysbysebwyd (88.7%).
- Mae cyfran yr athrawon sydd wedi gadael y proffesiwn (gan gynnwys ymddeol) wedi cynyddu'n sylweddol ers 2020. Rhwng blwyddyn academaidd 2020 i 2021 a 2023 i 2024, cynyddodd y nifer 39.7%, a bu cynnydd o 54.6% ymhlith athrawon cynradd.
- O blith y 1,465 o athrawon a adawodd y proffesiwn yn ystod blwyddyn academaidd 2023 i 2024, ymddeolodd 455 (31.0%) (ar oedran ymddeol arferol neu gynnar).

Dangosodd data answyddogol a gasglwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Prif Seicolegwyr Addysg yng Nghymru yn 2021 fod 136 o seicolegwyr addysgol cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes data swyddogol ar y gweithlu arbenigol ar gael ar hyn o bryd.

Gallai newidiadau demograffig a ragwelir fod â goblygiadau sylweddol i gynllunio ysgolion a'r gweithlu fydd ei angen. Mae ffynonellau data yn dangos y bydd y canlynol yn digwydd rhwng 2025 a 2041:

- rhagwelir y bydd nifer y dysgwyr cyfwerth ag amser llawn gorfodol yng Nghymru yn gostwng 14.5%
- disgwylir i nifer y dysgwyr ysgolion cynradd ostwng 11.8%, ac mai rhwng 2025 a 2035 y bydd y gostyngiad mwyaf. Ar ôl 2035, rhagwelir y bydd y niferoedd yn sefydlogi, gan awgrymu y bydd llai o alw am athrawon cynradd yn y tymor byr i ganolig
- rhagwelir y bydd gostyngiad o 18.2% yn nifer y dysgwyr ysgolion uwchradd a gynhelir (o dan oedran gadael ysgol) gan gwmpasu'r cyfnod uwchradd craidd (Blynyddoedd 7 i 11). Mae hyn yn awgrymu y bydd y galw am athrawon uwchradd yn gostwng yn ôl pob tebyg
- rhagwelir y bydd nifer y dysgwyr mewn ysgolion arbennig a gynhelir (pob oedran) yn gostwng o oddeutu 6,300 i 5,300 (gostyngiad o 15.4%) dros yr un cyfnod

Nid yw'r prif ffigurau hyn yn cyfleu'r newidiadau cyfansoddiadol disgwyliedig ym mhoblogaeth y dysgwyr. Mae’r rhain yn cynnwys newidiadau yng nghyfran y dysgwyr ag ADY, newidiadau mewn amrywiaeth ethnig, dosbarthiad daearyddol, neu'r cynnydd arfaethedig yn y gyfran sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Nid ydynt ychwaith yn cynnwys newidiadau tebygol mewn anghenion cymorth cymdeithasol-emosiynol, na'r heriau presennol y mae ysgolion yn eu hwynebu ynghylch iechyd meddwl a lles, niwroamrywiaeth, ymddygiad a dysgwyr nad ydynt yn cyrraedd cerrig milltir datblygu cynnar. Bydd newidiadau o'r fath yn effeithio ar y math a lefel y galw am staff addysgu a chymorth ledled Cymru. Wrth gynllunio ar gyfer y galw yn y dyfodol, bydd yn bwysig ystyried nifer cyffredinol y dysgwyr a'r newidiadau cyfansoddiadol. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd y bydd galw cynyddol am staff bugeiliol arbenigol a staff nad ydynt yn addysgu (er enghraifft cymorth ADY, neu arbenigwyr ymddygiadol) ac y gallai nifer y dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol, neu nifer y dysgwyr sy'n dewis cael eu haddysgu gartref, gynyddu.

# Egwyddorion arweiniol

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer system addysg gynhwysol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n galluogi pob dysgwr i wireddu ei botensial, rhaid inni gael gweithlu proffesiynol ac o ansawdd uchel sy’n cael ei gefnogi a’i barchu. Bwriad yr egwyddorion sy’n sail ar gyfer y cynllun hwn yw meithrin cydnabyddiaeth ar y cyd o rôl bwysig ein gweithlu addysg wrth alluogi ein dysgwyr i wireddu eu potensial.

- Mae ein hymarferwyr yn weithwyr proffesiynol grymus ac mae ganddynt hunaniaeth broffesiynol glir. Maent wedi ymrwymo i safonau uchel a dysgu proffesiynol drwy gydol eu gyrfa ac i weithio mewn modd gweithredol, gonest ac mewn cydweithrediad ag eraill.
- Mae lles ein hymarferwyr yn hollbwysig.
- Mae statws broffesiynol ein gweithlu addysg, yn ogystal â'r parch a'r balchder cenedlaethol a chymunedol sydd ynddo, yn cael ei gryfhau, ei gynnal a'i ddathlu.
- Mae ein hymarferwyr yn deall pwysigrwydd canolog y Gymraeg a’n diwylliant Cymreig ac maent yn cynrychioli’r holl gymunedau amrywiol y maent yn eu gwasanaethu, gan gynnwys cefndiroedd duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- Mae llwybrau gyrfa clir ar gael ar gyfer ein hymarferwyr o fewn cymuned ymarfer uchelgeisiol, cynhwysol a hunan-fyfyriol.
- Mae’r proffesiwn yng Nghymru yn addas ar gyfer y dyfodol – mae’n flaengar, yn hyderus gyda thechnoleg ddigidol ac yn agored i newid a heriau.

# Rolau a chyfrifoldebau

Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus yn gofyn am gydweithrediad agos rhwng yr holl bartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cyfarwyddiaethau Addysg, Cymraeg 2050, Addysg Drydyddol ac Iechyd
- awdurdodau lleol
- ysgolion a lleoliadau
- Estyn
- Dysgu
- undebau gweithlu addysg
- prifysgolion, gan gynnwys partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA) a chymdeithasau dysgedig
- y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (yr Athrofa, pan gaiff ei sefydlu yn 2027), y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a CYDAG
- sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi dysgwyr ac ymarferwyr
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Adnodd
- Medr
- Cymwysterau Cymru
- Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru
- llywodraethwyr ysgolion

Rydym wedi nodi sefydliadau arweiniol ar gyfer pob cam gweithredu a nodir yn y cynllun ac rydym hefyd wedi nodi cyfrifoldebau ehangach sefydliadau allweddol a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni pob thema allweddol.

Disgwylir i'r holl bartneriaid weithio ar y cyd ac mewn modd adeiladol i roi’r cynllun hwn ar waith i osgoi dyblygu ymdrech ac er mwyn defnyddio adnoddau yn effeithiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r arweinyddiaeth gyffredinol ar gyfer y cynllun yn ogystal â sefydlu trefniadau i fonitro effaith y camau gweithredu a’u gwerthuso.

# Ein hymrwymiadau

Mae ein hymrwymiadau wedi'u nodi o dan bum thema allweddol.

- Sicrhau ansawdd addysgu a dysgu.
- Mynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith.
- Ymateb i heriau newydd i weithlu ysgolion a sicrhau bod modd cael gafael ar gymorth trwy weithlu arbenigol a bugeiliol.
- Sicrhau bod addysgu, cefnogi addysgu ac arweinyddiaeth addysg yn llwybrau gyrfa deniadol.
- Sicrhau defnydd effeithiol ac amserol o ddata a thystiolaeth i lywio’r gwaith o gynllunio'r gweithlu.

Ystyrir lles staff o dan bob thema a bydd wrth wraidd sut y byddwn yn mynd ati i roi’r cynllun ar waith.

O dan bob thema rydym wedi amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd gyda'n partneriaid dros y tymor byr, canolig a hir. At ddibenion y cynllun hwn, rhoddir y camau ar waith yn unol â’r amserlenni canlynol.

- Tymor byr = eu datblygu a dechrau eu rhoi ar waith o fewn 1 i 2 flynedd
- Tymor canolig = eu datblygu a dechrau eu rhoi ar waith o fewn 3 i 5 mlynedd
- Tymor hir = eu datblygu a dechrau eu rhoi ar waith o flwyddyn 5 ymlaen

## 1. Sicrhau ansawdd addysgu a dysgu

Mae mynediad cyson a gydol-gyrfa at ddysgu proffesiynol o'r ansawdd uchaf, sy'n destun camau sicrhau ansawdd parhaus, yn hanfodol i gefnogi datblygiad a phroffesiynoldeb yr ymarferwyr sy'n gweithio yn ein hysgolion yng Nghymru. Mae gweithlu sy'n cael ei gefnogi a'i werthfawrogi yn hanfodol i ysgolion a lleoliadau yn ogystal â'u dysgwyr.

Ein huchelgais yw y bydd yr holl gynorthwywyr addysgu, athrawon ac arweinwyr yn cael eu cefnogi i ymgysylltu â chymorth cydlynol ac o ansawdd uchel sydd ar gael yn genedlaethol i wella canlyniadau mewn modd cynaliadwy i bob dysgwr. Gan weithio'n uniongyrchol gydag ymarferwyr, bydd gan Dysgu rôl allweddol wrth gefnogi'r uchelgais hon ochr yn ochr â'n hawdurdodau lleol a'n prifysgolion. Ar ben hynny, bydd Estyn yn parhau i arolygu ansawdd addysgu a dysgu i adlewyrchu'r newidiadau a'r blaenoriaethau a gyflawnwyd ar ôl rhoi'r cynllun ar waith.

**Camau gweithredu tymor byr**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 1.1. | Creu amodau gwell i ymarferwyr ymgysylltu â dysgu proffesiynol perthnasol trwy wneud y diwrnod hyfforddiant mewn swydd ychwanegol, a ddarperir ers 2019, yn hawl barhaol i ysgolion i'w ymgorffori yn y flwyddyn ysgol er mwyn gwella ansawdd yr addysgu, lles staff, a deilliannau dysgwyr yn y pen draw. | Llywodraeth Cymru |
| 1.2. | Grymuso a chynyddu galluogedd ymarferwyr i gydweithio drwy hyrwyddo a chreu cyfleoedd proffesiynol rheolaidd i drafod a myfyrio ar draws pob haen o'r system yn unol â'n trefniadau newydd ar gyfer gwella ysgolion. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 1.3. | Datblygu rhaglen gydlynol o ddysgu proffesiynol i athrawon sy'n cael ei llywio gan dystiolaeth**,** yn seiliedig ar dystiolaeth o angen, i ddatblygu eu harferion yn barhaus a gwella ansawdd addysgu ar wahanol gyfnodau o'u gyrfaoedd ac o fewn gwahanol gyd-destunau ysgol. Bydd dysgu proffesiynol yn elfen ganolog o'r ddarpariaeth hon er mwyn datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o addysgeg effeithiol a'r defnydd o ymchwil ac ymholi yn barhaus yn ogystal ag er mwyn cefnogi llythrennedd a datblygiad iaith, rhifedd ac arferion cynhwysol. | Dysgu |
| 1.4. | Datblygu a chyflwyno Llwybr Gyrfa Cynnar strwythuredig i gefnogi athrawon yn ystod eu AGA a'u 3 i 4 blynedd gyntaf o addysgu, gan gynnwys mentora o ansawdd uchel. Bydd y Llwybr yn cael ei alinio â'r Safonau Proffesiynol. | Llywodraeth Cymru, prifysgolion a Dysgu |

| | | |
|---|---|---|
| 1.5. | Adolygu a mireinio'r llwybr dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu i roi cyfleoedd iddynt ddatblygu arbenigedd wrth gefnogi dysgwyr ag ystod o anghenion ac mewn meysydd blaenoriaeth, a gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn i ymgysylltu â'r llwybr. | Dysgu ac awdurdodau lleol |
| 1.6. | Adolygu a mireinio'r llwybr dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr ysgol, gan gynnwys y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth a darpariaeth i benaethiaid mewn swydd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd mentor neu hyfforddwr profiadol yn eu cefnogi a bod cyfleoedd iddynt ddatblygu arbenigedd mewn ystod o feysydd, gan gynnwys hunanwerthuso effeithiol a chynllunio gwella. | Dysgu ac awdurdodau lleol |
| 1.7. | Parhau i gyflwyno a chynyddu cyfranogiad mewn rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau i alluogi pob ymarferydd ysgol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (ac Athrofa ar ôl ei sefydlu) |
| 1.8. | Datblygu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol i ddatblygu dulliau effeithiol o addysgu a dysgu Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. | Dysgu ac awdurdodau lleol |
| 1.9. | Datblygu cyfleoedd i athrawon uwchradd wella eu gwybodaeth am bynciau i'w galluogi i addysgu'n hyderus ar draws ystod ehangach o feysydd pwnc. | Dysgu a phrifysgolion (adrannau academaidd ac adrannau AGA) |
| 1.10. | Hyrwyddo rôl E-sgol i gyflwyno datrysiadau dysgu hybrid fel bod cwricwlwm eang ar gael i ddysgwyr ac i gefnogi ysgolion sy'n wynebu heriau wrth recriwtio arbenigwyr pwnc. | E-sgol |
| 1.11. | Adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiadau Addysg a gweithio gyda'n prifysgolion a'r Tîm Gwella Addysg i ddatblygu rhaglen glir a pharhaus o ymchwil addysg a thystiolaeth i lywio polisïau ac arferion yn yr ystafell ddosbarth. | Llywodraeth Cymru a phrifysgolion |
| 1.12. | Adolygu Meini Prawf Achredu AGA a gweithio gyda Phartneriaethau AGA, Estyn a Bwrdd Achredu AGA i sicrhau dull cyson o ddatblygu cymhwysedd myfyrwyr wrth ddeall datblygiad plant, arferion perthynol, iechyd meddwl, niwroamrywiaeth, llythrennedd, rhifedd, datblygiad eu sgiliau Cymraeg a blaenoriaethau allweddol eraill. | Llywodraeth Cymru |

**Camau gweithredu tymor canolig**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 1.13. | Ymgynghori ynghylch a ddylid gosod y safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo trefniadau addysgu ac adolygu datblygiad proffesiynol (rheoli perfformiad) ar sail statudol ar gyfer cynorthwywyr addysgu i gyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer athrawon ac arweinwyr i sicrhau bod deialog broffesiynol a myfyriol ar gael i bawb yn yr un modd. | Llywodraeth Cymru |
| 1.14. | Sefydlu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol i ddatblygu cronfa o hyfforddwyr a mentoriaid cymwys sydd ar gael i ymarferwyr ar bob cam o'u gyrfaoedd i gefnogi eu hanghenion unigol ac i fireinio ac ymestyn eu sgiliau a'u gwybodaeth. | Dysgu ac awdurdodau lleol |
| 1.15. | Datblygu dealltwriaeth system o'r blaenoriaethau dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Bydd hyn yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan ymarferwyr a thrwy ein trefniadau partneriaeth gwella ysgolion i lywio darpariaeth yn y dyfodol. | Llywodraeth Cymru, Estyn a Dysgu |
| 1.16. | Datblygu dealltwriaeth system o sut i fesur effaith dysgu proffesiynol i lywio gwelliannau i drefniadau hunanwerthuso ac i lywio'r cynnig dysgu proffesiynol yn y dyfodol. | Llywodraeth Cymru, Estyn a Dysgu |
| 1.17. | Gan adeiladu ar y Cynllun Pontio presennol, adolygu'r cyfleoedd i athrawon cynradd ddatblygu eu hymarfer a'u harbenigedd pwnc i addysgu mewn ysgolion uwchradd. | Llywodraeth Cymru, Dysgu a phrifysgolion |
| 1.18. | Datblygu cynnig clir o ran dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi hyblyg. | Dysgu |

**Camau gweithredu tymor hir**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 1.19. | Archwilio opsiynau ar gyfer cryfhau'r sail reoleiddiol ar gyfer sut mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol. Bydd hyn yn gofyn am ystod o opsiynau, er enghraifft amser gwarchodedig ar gyfer dysgu proffesiynol neu adolygiad pellach o ddefnydd ac effeithiolrwydd diwrnodau hyfforddiant mewn swydd. | Llywodraeth Cymru |

**Sut caiff y camau hyn eu cyflawni**

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- alinio a symleiddio ein modelau a'n canllawiau presennol i roi eglurder polisi ar ein camau gweithredu i gefnogi gwella ansawdd addysgu a dysgu yn ogystal â gwelliannau o ran hunanwerthuso
- gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod dysgu proffesiynol a ariennir yn genedlaethol yn cael effaith gynaliadwy a chadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr a bod cyllid yn cael ei gyfeirio at ysgolion yn dryloyw i gefnogi cydweithredu rhwng ysgolion a dysgu proffesiynol lleol

Bydd awdurdodau lleol yn:

- creu'r amodau i uwch-arweinwyr gael y gefnogaeth gyson i ymgymryd â'u rolau
- rhoi eglurder ar y dysgu proffesiynol gorfodol y mae'n ofynnol i ymarferwyr ei wneud a gweithio ar y cyd i sicrhau cysondeb ledled Cymru
- creu'r amodau i ymarferwyr gydweithio i wella deilliannau yn rhan o'r trefniadau newydd i wella ysgolion

Bydd Dysgu, ein partneriaethau AGA a phartneriaid cyflenwi eraill yn:

- sicrhau aliniad ar draws AGA a dysgu proffesiynol gydol-gyrfa i leihau dyblygu, sicrhau bod adnoddau ac arferion yn cael eu rhannu ac i roi eglurder yn y cynnig i ymarferwyr

Bydd penaethiaid yn:

- datblygu diwylliant o ddysgu parhaus yn eu hysgolion, yn unol â'r model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, a chreu'r amodau i uwch-arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu ymgysylltu â dysgu proffesiynol a chydweithio ag ymarferwyr eraill i fyfyrio ar eu datblygiad unigol a datblygiad yr ysgol a'i gefnogi
- cefnogi datblygiad athrawon y dyfodol drwy fynd ati'n rhagweithiol i ddarparu lleoliadau o ansawdd uchel i athrawon dan hyfforddiant

## 2. Mynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith

Er mwyn cefnogi lles ein gweithlu mewn ysgolion, rhaid inni barhau i gymryd camau i leihau pwysau llwyth gwaith drwy flaenoriaethu camau allweddol, creu mwy o amser ar gyfer gweithgareddau proffesiynol hanfodol, a chefnogi defnydd effeithiol o dechnoleg ddigidol. Bydd hyn yn cynnwys ailffocysu ymdrechion ar flaenoriaethau y cytunwyd arnynt trwy ein trefniadau gwella ysgolion, archwilio opsiynau i alluogi athrawon a staff i neilltuo mwy o amser i gynllunio, dysgu proffesiynol a chydweithio, a harneisio technolegau digidol i yrru effeithlonrwydd a chefnogi arferion arloesol. Gyda'i gilydd, nod y camau hyn yw gwella lles, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd ar draws y gweithlu addysg.

**Camau gweithredu tymor byr**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 2.1. | Defnyddio'r asesiad o effaith ar llwyth gwaith fel gofyniad arferol ar gyfer pob maes polisi sy'n effeithio ar ysgolion cyn cyflwyno unrhyw newidiadau polisi. Bydd hyn yn lleihau'r effaith ar ysgolion ac yn ehangu ei ddefnydd ar draws Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phartneriaid allweddol eraill. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Estyn a phartneriaid allweddol |
| 2.2. | Sicrhau bod pob partner yn mabwysiadu canllawiau'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu proffesiynol i ddatblygu a chefnogi diwylliant cadarnhaol o gydweithio ac ymgysylltu o fewn y sector. | Llywodraeth Cymru |
| 2.3. | Rhoi eglurder ar flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn barhaus drwy'r Fframwaith Gwella Cenedlaethol er mwyn symleiddio prosesau adrodd a monitro a lleihau llwyth gwaith diangen athrawon. | Llywodraeth Cymru |
| 2.4. | Ymgymryd ag ymchwil ar fodelau rhyngwladol o ddarparu amser di-gyswllt fel bod athrawon ac arweinwyr yn gallu cynllunio, paratoi ac asesu, cydweithio ac ymgysylltu â dysgu proffesiynol, a chostio'r opsiynau i gynyddu amser di-gyswllt ac unrhyw oblygiadau staffio y gallai hyn eu cael ar ysgolion. | Llywodraeth Cymru |
| 2.5. | Sicrhau bod cynnig cynhwysfawr o gymorth lles, gan gynnwys goruchwyliaeth broffesiynol, ar gael ar gyfer arweinyddion, athrawon a staff cymorth drwy raglenni a arweinir gan gyflogwyr. | Awdurdodau lleol |
| 2.6. | Gwneud newidiadau i Ddogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) yn seiliedig ar argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru i sicrhau amser gwarchodedig i'n harweinwyr ysgolion. | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| 2.7. | Ar ôl cwblhau'r peilot i gefnogi arweinwyr busnes ysgolion, ystyried opsiynau posibl ar gyfer ehangu i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu yn eu rolau er mwyn arwain at leihau llwyth gwaith uwch-arweinwyr. | Llywodraeth Cymru |
| 2.8. | Gan adeiladu ar ganllawiau Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn addysg, datblygu dysgu proffesiynol strwythuredig a chymorth ymarferol i gynorthwywyr addysgu, athrawon ac arweinwyr wrth ddefnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol ac yn briodol i leihau llwyth gwaith. | Llywodraeth Cymru a Dysgu |
| 2.9. | Hyrwyddo rôl Adnodd a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi addysgu a dysgu er mwyn lleihau llwyth gwaith a chefnogi ymarferwyr. | Adnodd |
| 2.10. | Gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i archwilio arferion effeithiol wrth ymgymryd â rôl cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) ac i archwilio sut y gallai defnyddio llwyfannau digidol i wella effeithlonrwydd a thryloywder cynlluniau datblygu unigol. Darparu dysgu proffesiynol a chefnogaeth mewn sgiliau arwain a rheoli i leddfu'r baich gweinyddol ar rôl CADY. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 2.11. | Gweithio gydag awdurdodau lleol i roi rheoliadau cyllido ysgolion newydd ar waith, gan gynnig mwy o gysondeb, cymhariaeth a thryloywder. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |

**Camau gweithredu tymor canolig**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 2.12. | Yng ngoleuni'r newidiadau demograffig a ragwelir, y cynnydd mewn addysg Gymraeg a'r amrywiaeth a'r cymhlethdod cynyddol o ran anghenion dysgwyr, ystyried sut y gellid adolygu'r model cyllido ysgolion ymhellach i ystyried yr angen i sicrhau tryloywder a bod digon o gyllid i ariannu staff ysgolion er mwyn cyflwyno ehangder y Cwricwlwm i Gymru, cefnogi addysg gynhwysol a lleihau maint dosbarthiadau. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 2.13. | Gweithio gydag awdurdodau lleol i gwmpasu opsiynau i leihau'r baich o reoli ystadau ysgol ar arweinwyr ysgolion fel eu bod yn gallu mynd i'r afael â phryderon llwyth gwaith a lles. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 2.14. | Parhau i adolygu'r gofynion adrodd mewn perthynas â grantiau Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol a lleol. | Llywodraeth Cymru ac Estyn |

**Sut caiff y camau hyn eu cyflawni**

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- gweithio ar draws y Llywodraeth i wella’r modd y caiff addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eu hintegreiddio er mwyn deall anghenion dysgwyr ac ymateb iddynt yn well
- gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod effaith holl ddatblygiadau polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar lwyth gwaith ymarferwyr yn cael eu hystyried a'u costio'n llawn mewn partneriaeth â'r proffesiwn a bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effaith a ragwelir

Bydd awdurdodau lleol yn:

- cydweithio i greu'r amodau i leihau llwyth gwaith arweinwyr ysgolion drwy ofynion cyllido ac adrodd clir a thryloyw

Bydd undebau gweithlu addysg yn:

- llywio datblygiad polisïau a gweithdrefnau sy'n cefnogi lleihau llwyth gwaith ymarferwyr drwy bartneriaeth gymdeithasol barhaus

Bydd penaethiaid yn:

- datblygu diwylliant o gydweithio yn eu hysgolion a chreu'r amodau i ymarferwyr ymgysylltu â deallusrwydd artiffisial a thechnoleg ddigidol i gefnogi dysgu ac i leihau llwyth gwaith, tra’n cydnabod bod addysgu yn weithgaredd perthynol yn y bôn

## 3. Ymateb i heriau newydd i weithlu ysgolion a sicrhau bod modd cael gafael ar gymorth drwy weithlu arbenigol a bugeiliol

Rydym yn deall y pwysau sydd ar y proffesiwn addysg yng Nghymru ac rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ddeall y realiti cynyddol bod ymarferwyr yn cyflawni tasgau a gweithgareddau ychwanegol, a ystyriwyd yn flaenorol yn rhai a gyflawnir gan deuluoedd, ymarferwyr iechyd neu asiantaethau partner. Rydym hefyd yn cydnabod bod y gwaith ychwanegol yn aml yn cael ei gyflawni heb yr adnoddau i'w cefnogi ochr yn ochr â chyflawni dyletswyddau addysgu 'o ddydd i ddydd' yn effeithiol.

Ein gweledigaeth ar gyfer ysgolion bro yw gwneud pob ysgol yng Nghymru yn ganolfan sy'n gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd, cymunedau a gwasanaethau eraill i gefnogi dysgwyr a chryfhau cymunedau lleol. Ochr yn ochr â'n dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant, ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr ac aelod o staff yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu ffynnu.

Wrth symud ymlaen, mae cryfhau ein dull cyd-gysylltiedig ac aml-asiantaeth yn hanfodol i helpu gweithlu mewn ysgolion i ymateb i newidiadau cymdeithasol ehangach, cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a mynd i'r afael ag ystod eang o anghenion dysgwyr eraill, gan gynnwys ein dysgwyr mwyaf agored i niwed, y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar ben hynny, mae angen inni sicrhau ein bod yn datblygu ac yn defnyddio staff bugeiliol nad ydynt yn addysgu yn effeithiol i fynd i'r afael â heriau fel ymddygiad dysgwyr, presenoldeb a llesiant ochr yn ochr â staff arbenigol eraill sy'n cefnogi ein dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd neu ddysgu ychwanegol.

**Camau gweithredu tymor byr**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 3.1. | Datblygu dealltwriaeth lawn o'r gofyn cynyddol ar ysgolion ac ymarferwyr i ymgymryd â thasgau a gyflawnwyd yn flaenorol gan bartneriaid cymdeithasol eraill. Bydd hyn yn sail ar gyfer ailsefydlu cydweithio aml-asiantaethol rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cynllunio a sicrhau gwasanaethau arbenigol addas i gefnogi dysgwyr. | Llywodraeth Cymru |
| 3.2. | Egluro rolau a chyfrifoldebau cynorthwywyr addysgu wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a sicrhau bod dysgu a chymorth proffesiynol digonol ar gael i allu darparu cymorth diogel ac effeithiol. | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| 3.3. | Datblygu canllawiau ac arferion effeithiol i arweinwyr a llywodraethwyr ar sut i hyrwyddo rôl cynorthwywyr addysgu a'u defnyddio'n effeithiol mewn gwahanol leoliadau ysgol ac ar draws clystyrau er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o gyllid a chefnogaeth i ddysgwyr. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 3.4. | Hyrwyddo rôl statudol y CADY a chyfathrebu ei bwysigrwydd strategol yn glir i ddysgwyr, rhieni ac ysgolion. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 3.5. | Cynnal adolygiad o'r argaeledd a'r gofyniad am gymwysterau gweithlu addysg arbenigol, yn enwedig ar gyfer athrawon dysgwyr â nam ar eu golwg neu fyddar, seicolegwyr addysgol ac athrawon arbenigol lleferydd ac iaith i lywio trefniadau cyflawni yn y dyfodol. | Llywodraeth Cymru |
| 3.6. | Cefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u harferion ymhellach mewn ystod o feysydd sy'n gysylltiedig â thegwch, gan gynnwys creu amgylcheddau dysgu teg a chynhwysol, mynd i'r afael ag ymddygiad dysgwyr ac ymgorffori egwyddorion gwrth-hiliol. | Dysgu |
| 3.7. | Buddsoddi mewn dull mwy cynaliadwy o ddefnyddio staff bugeiliol nad ydynt yn addysgu gan gynnwys Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, yn ogystal â gwaith Rheolwyr Ysgolion Bro, gan gynnwys mynediad at ddysgu proffesiynol a datblygiad gyrfa. Y nod fydd cefnogi dysgwyr, teuluoedd a'r gweithlu addysgu ehangach. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 3.8. | Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r undebau addysg i ddatblygu protocolau clir ynghylch rhyngweithiadau cadarnhaol ac adeiladol rhwng rhieni neu gofalwyr a'r ysgol, gan nodi disgwyliadau. Yn rhan o hyn, bydd angen egluro trefniadau cwyno a chyfeirio. | Llywodraeth Cymru |
| 3.9. | Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r gwasanaethau cymorth ehangach i deuluoedd y gall ysgolion eu defnyddio a chyfeirio atynt. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 3.10. | Yn ystod 2026 i 2027, symud ymlaen o weithredu'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant i helpu arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion i ymgorffori gweithgareddau i sicrhau ei fod yn rhan o ethos pob ysgol. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion |
| 3.11. | Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dealltwriaeth o anghenion dysgu proffesiynol y gweithlu sy'n helpu i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol fel bod mwy o gysondeb ar draws ystod o wahanol fodelau a chyd-destunau cyflawni. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |

**Camau gweithredu tymor canolig**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 3.12. | Adolygu'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i staff bugeiliol awdurdodau lleol i gefnogi eu harferion o ddydd i ddydd ac i wella'u dealltwriaeth o bolisïau a deddfwriaeth berthnasol Llywodraeth Cymru. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |

**Camau gweithredu tymor hir**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 3.13. | Ymgymryd ag adolygiad o'r rolau presennol o fewn gweithlu ysgolion i benderfynu a oes rolau a swyddogaethau ar goll yng nghyfansoddiad gweithlu ysgolion a'r graddau y deallir yr angen am unrhyw rolau ychwanegol a'u natur. | Llywodraeth Cymru |

**Sut caiff y camau hyn eu cyflawni**

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- sicrhau dealltwriaeth draws-lywodraethol o rolau a chyfrifoldebau pawb wrth ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr
- gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y cyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth ychwanegol i ddysgwyr yn galluogi gweithlu cynaliadwy

Bydd awdurdodau lleol yn:

- cydweithio i sicrhau bod digon o staff addysg a bugeiliol arbenigol i gefnogi gweithlu ysgolion i ymateb i newidiadau cymdeithasol ehangach a mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg

Bydd undebau gweithlu addysg yn:

- eirioli dros y gweithlu addysg a'r gweithlu bugeiliol yn yr ysgol, yn enwedig ynghylch eglurder diffiniadau rôl a defnydd effeithiol

Bydd penaethiaid yn:

- adeiladu ar eu dealltwriaeth ddofn o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac anghenion eu dysgwyr er mwyn defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn deg
- ymgorffori'r diwygiadau ADY ymhellach yn rhan o arweinyddiaeth ysgol-gyfan i sicrhau bod ymarfer cynhwysol a chefnogi dysgwyr ag ADY yn parhau i fod yn gyfrifoldeb a rennir i'r holl staff

## 4. Sicrhau bod addysgu, cefnogi addysgu ac arweinyddiaeth addysg yn llwybrau gyrfa deniadol

Mae gennym athrawon, arweinwyr a staff cymorth gwirioneddol ysbrydoledig yng Nghymru, sydd wedi buddsoddi yn y proffesiwn ac sydd eisiau cyflawni'r deilliannau gorau i'w dysgwyr.

Mae angen inni greu'r amodau ar gyfer proffesiwn addysg hynod ddeniadol ac uchel ei barch, i gefnogi'r gwaith o recriwtio gweithlu, eu cadw a'u datblygu.

**Camau gweithredu tymor byr**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 4.1. | Mireinio ein hymgyrch gyfathrebu ymhellach i ddathlu rôl hanfodol ysgolion ac ymarferwyr, tynnu sylw at broffesiynoldeb y gweithlu a phwysleisio cyfraniad pwysig rhieni a gofalwyr wrth gefnogi dysgu. | Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid |
| 4.2. | Adolygu ac addasu gwefan Addysgwyr Cymru ac ymgyrch Addysgu Cymru i hyrwyddo a darparu gwybodaeth hygyrch am yrfa ym maes addysgu i ddarpar athrawon. Bydd hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithlu, meysydd pwnc blaenoriaeth ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ganolog i'r gweithgarwch i sicrhau bod ein proffesiwn yn adlewyrchu'r cymunedau y mae ysgolion yn eu gwasanaethu. | Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg |
| 4.3. | Datblygu cyngor gyrfaoedd a chymorth eiriolaeth ymhellach i ddarpar athrawon, yn enwedig mewn meysydd pwnc blaenoriaeth. Dylai gweithio gydag ysgolion, prifysgolion a sefydliadau proffesiynol i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o athrawon fod yn flaenoriaeth allweddol. | Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg |
| 4.4. | Mynd ar drywydd y blaenoriaethau a nodwyd gan ein partneriaid cymdeithasol ar gyfer bwrw ymlaen ag argymhellion allweddol gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yn eu hadolygiad strategol o delerau ac amodau athrawon ac arweinwyr a'r argymhellion mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau CADY ac athrawon cyflenwi. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac undebau'r gweithlu |
| 4.5. | Adeiladu ar arferion effeithiol presennol wrth ddarparu modelau gweithio hyblyg sy'n cefnogi lles ymarferwyr, nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar ddysgwyr. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |

| | | |
|---|---|---|
| 4.6. | Datblygu llwybrau gyrfa strwythuredig ar gyfer cynorthwywyr addysgu wedi'u halinio â'r safonau proffesiynol ac ystod o gymwysterau a dysgu proffesiynol. Bydd hyn yn eu galluogi i ddatblygu eu harbenigedd mewn rolau penodol neu symud ymlaen i fod yn athrawon. | Llywodraeth Cymru, Dysgu a Chymwysterau Cymru |
| 4.7. | Datblygu cynigion deddfwriaethol ar gyfer Corff Negodi Staff Cymorth Ysgolion i Gymru i wella cyflogau a thelerau ac amodau ar gyfer ein cynorthwywyr addysgu. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac undebau'r gweithlu |
| 4.8. | Tra bod gwaith i gwmpasu a datblygu'r Corff Negodi Staff Cymorth Ysgolion i Gymru yn mynd rhagddo, gweithio gydag awdurdodau lleol i symud cynorthwywyr addysgu sy’n cael eu cyflogi ar Lefel 1 ar hyn o bryd i Lefel 2 i adlewyrchu’r newidiadau i’r rôl. | Awdurdodau lleol |
| 4.9. | Datblygu llwybrau gyrfa strwythuredig ar gyfer athrawon ac arweinwyr sy'n amlygu’r cyfleoedd i symud ymlaen i rolau arweinyddiaeth canol neu uwch mewn ysgol neu rolau arbenigol, cynghori neu bolisi yn y sector addysg. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 4.10. | Adolygu cynllun y gweithlu Cymraeg mewn Addysg a gweithio gyda phartneriaid allweddol i fireinio'r camau sydd i'w cymryd i sicrhau bod gweithlu digonol i gyflawni'r targedau a osodir ar gyfer awdurdodau lleol drwy'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, sy'n ofynnol o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru). | Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol |
| 4.11. | Adolygu effeithiolrwydd a gwerth am arian ein cymhellion AGA a'r fwrsariaeth beilot i gadw athrawon Cymraeg mewn addysg. Datblygu cynigion ar gyfer cefnogaeth recriwtio a chadw ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, dealltwriaeth o'r heriau recriwtio a chadw mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig a'r rhwystrau ariannol o ran dechrau rhaglenni AGA a’u cwblhau. | Llywodraeth Cymru |
| 4.12. | Cynnal rhaglenni peilot i wella gwybodaeth is-raddedigion a graddedigion i ddatblygu arbenigedd mewn pynciau blaenoriaeth er mwyn eu galluogi i ymgymryd â rhaglenni AGA uwchradd. | Partneriaethau AGA |

| | | |
|---|---|---|
| 4.13. | Adnabod a hyrwyddo’r modelau mwyaf effeithiol ar gyfer cwmpasu absenoldeb athrawon gan sicrhau'r gwerth gorau am arian a pharhad dysgu i'n dysgwyr er mwyn datblygu canllawiau diwygiedig rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried defnyddio athrawon ychwanegol a goruchwylwyr llanw. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac undebau gweithlu |
| 4.14. | Datblygu fframwaith newydd ar gyfer asiantaethau cyflenwi gyda phwyslais ar wella gwerth am arian i ysgolion. | Llywodraeth Cymru |

**Camau gweithredu tymor canolig**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 4.15. | Gweithio gyda'n partneriaid cymdeithasol i adolygu rôl a chylch gwaith Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru mewn perthynas â thâl ac amodau athrawon ac arweinwyr. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac undebau'r gweithlu |
| 4.16. | Ffurfioli a safoni rôl Pennaeth Gweithredol o fewn llwybr gyrfa ar gyfer arweinwyr ysgolion. | Awdurdodau lleol |
| 4.17. | Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar lwybrau amgen i addysgu a fydd yn cryfhau darpariaeth AGA, gan gynnwys llwybrau galwedigaethol ôl-16, prentisiaethau gradd a llwybrau uwchradd israddedig. | Llywodraeth Cymru |
| 4.18. | Gweithio gyda Chymwysterau Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i ddatblygu dealltwriaeth o’r gofynion mynediad cyffredin cyfredol i gynorthwyo addysgu, gofal plant a blynyddoedd cynnar a chwarae. A lle bo’n bosibl, datblygu nodweddion cyffredin i’r cymwysterau ar gyfer y gwahanol sectorau er mwyn galluogi ystod o gyfleoedd gyrfa. | Llywodraeth Cymru |
| 4.19. | Yn seiliedig ar y gwerthusiad sydd ar ddod o bolisi AGA a'r astudiaeth ddichonoldeb arfaethedig ar lwybrau amgen i addysgu (a amlinellir uchod), adolygu strwythur AGA i sicrhau bod y ddarpariaeth yn hyfyw ac yn hygyrch ledled Cymru. | Llywodraeth Cymru |

**Sut caiff y camau hyn eu cyflawni**

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- creu'r amodau a'r mecanweithiau i athrawon, arweinwyr a chynorthwywyr addysgu weithio mewn proffesiwn deniadol a gwerthfawr sydd â hunaniaeth broffesiynol gref a chadarnhaol a chydbwysedd priodol rhwng bywyd a gwaith

Bydd awdurdodau lleol yn:

- gweithio ar y cyd i roi polisïau ar waith sy'n cefnogi recriwtio a chadw ymarferwyr yn gyson, gan gynnwys gweithio gydag ysgolion a phartneriaethau AGA i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o athrawon

Bydd undebau gweithlu addysg yn:

- llywio’r gwaith o ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n cefnogi recriwtio a chadw ymarferwyr drwy bartneriaeth gymdeithasol barhaus

Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn:

- parhau i adolygu a mireinio eu gwaith hyrwyddo addysgu fel gyrfa yn unol â'u swyddogaethau statudol

## 5. Sicrhau defnydd effeithiol ac amserol o ddata a thystiolaeth i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu

Mae cynllunio'r gweithlu yn effeithiol yn y sector addysg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan ysgolion a lleoliadau y bobl iawn, sydd â'r sgiliau addas, a'u bod yn y rolau cywir, ar yr adeg iawn.

Mae angen inni fireinio ein dull o gasglu data a deallusrwydd am y gweithlu er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu mewn ffordd fwy cynhwysfawr ac ystwyth.

**Camau gweithredu tymor byr**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 5.1. | Archwilio pa mor ymarferol fyddai ymuno ag Arolwg Rhyngwladol Addysgu a Dysgu yr OECD i gofnodi llais ymarferwyr am amodau gwaith ac amgylcheddau dysgu i lywio polisïau. Byddai cyfranogiad yn ein galluogi i gymharu â dros 60 o systemau addysg ledled y byd. | Llywodraeth Cymru |
| 5.2. | Ymgymryd â chynllunio olyniaeth ar gyfer penaethiaid yng Nghymru i lywio'r ffordd y dyrennir lleoedd ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth a llwybr arweinyddiaeth. Dylai hyn ystyried argaeledd y rhai sydd eisoes yn meddu ar y cymhwyster ond nad ydynt yn benaethiaid eto nac yn cyflwyno cais am swyddi. | Awdurdodau lleol a Dysgu |
| 5.3. | Datblygu modelau cynllunio'r gweithlu lleol neu draws-awdurdod ar gyfer y staff arbenigol a bugeiliol a gyflogir gan awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr, gan ystyried tueddiadau yn nifer y dysgwyr ag anghenion ychwanegol er mwyn llywio cefnogaeth yn y dyfodol ar gyfer y rolau hyn, yn enwedig ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, seicolegwyr addysg, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion ymddygiad ac athrawon dysgwyr byddar neu â nam ar eu golwg. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 5.4. | Datblygu modelau cynllunio'r gweithlu lleol neu draws-awdurdod ar gyfer athrawon gan ystyried newidiadau mewn demograffeg, y cynnydd arfaethedig mewn addysg cyfrwng Cymraeg a ffactorau lleol eraill er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu cenedlaethol. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |

| | | |
|---|---|---|
| 5.5. | Gwneud argymhellion ar gyfer rôl cyrff llywodraethu yn y dyfodol wrth recriwtio athrawon, arweinwyr a chynorthwywyr addysgu gyda'r bwriad o wella cyfleoedd i awdurdodau lleol ail-leoli neu gyflogi ar draws ysgolion yn well, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau mewn demograffeg. | Llywodraeth Cymru (drwy'r adolygiad o gyrff llywodraethu) |
| 5.6. | Adolygu a mireinio Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion statudol i sicrhau bod setiau data cyson cenedlaethol yn rhoi'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen arnom i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a datblygu polisïau effeithiol. Mae'r rhesymau pam mae ymarferwyr yn gadael y proffesiwn, a nifer y diswyddiadau a wneir bob blwyddyn, ymhlith y bylchau cyfredol mewn data. | Llywodraeth Cymru |

**Camau gweithredu tymor canolig**

| Cam gweithredu | | Sefydliad(au) arweiniol |
|---|---|---|
| 5.7. | Yn amodol ar argymhellion yr adolygiad uchod o gyrff llywodraethu, cymryd camau i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau o ran rôl cyrff llywodraethu wrth recriwtio athrawon, arweinwyr a chynorthwywyr addysgu. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |
| 5.8. | Gweithio gydag awdurdodau lleol a Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu set ddata gynhwysfawr a dibynadwy ar gyfer deall tueddiadau mewn cyflogi staff cyflenwi mewn ysgolion. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Chyngor y Gweithlu Addysg |
| 5.9. | Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella dealltwriaeth o'r gweithlu sy'n helpu i ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol. | Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol |

**Sut caiff y camau hyn eu cyflawni**

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a Chyngor y Gweithlu Addysg i sicrhau setiau data cydlynol fel bod modd cynllunio'r gweithlu yn effeithiol
- rhesymoli'r angen i ysgolion ddarparu data

Bydd awdurdodau lleol yn:

- cydweithio i ddatblygu dulliau casglu data cydlynol ar y gweithlu arbenigol a thueddiadau allweddol eraill y gweithlu

Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn:

- rhoi gwybodaeth i Weinidogion Cymru am weithlu ysgolion yn unol â'u swyddogaeth statudol